*Indicative text for inclusion in newsletters, websites etc.*

| **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn addo gweithio gyda phobl leol ar gynlluniau gofal iechyd yn y dyfodol** | **Powys Teaching Health Board pledges to work with local people on future healthcare plans** |
|---|---|
| Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn galw ar holl breswylwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth Powys i rannu eu barn ar ddyfodol gwasanaethau iechyd.<br><br>Mae'r rhaglen 'Gwella Gyda'n Gilydd' yn gweithio ledled y sir i ddod o hyd i ffyrdd o barhau i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu orau anghenion pobl Powys.<br><br>Dywedodd Hayley Thomas, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP): "Ein huchelgais yw bod trigolion Powys yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd diogel, o ansawdd sy'n ddibynadwy. Rydym am wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym, wrth hefyd sicrhau, yn anad dim, bod gofal a diogelwch cleifion ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn."<br><br>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r sir a'i phoblogaeth wedi profi llawer o newidiadau. Mae cymunedau'n mynd yn hŷn, ac wrth iddynt heneiddio, mae mwy o bobl yn byw gyda dau neu fwy o gyflyrau iechyd. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn dal i ddelio ag etifeddiaeth Pandemig COVID-19, gan gynnwys galw cynyddol am driniaethau, rhestrau aros sy'n cynyddu, yn ogystal â chynnydd mawr yng nghost tanwydd, bwyd a biliau eraill.<br><br>Gwella Gyda'n Gilydd yw addewid y bwrdd iechyd i weithio gyda phobl leol | Powys Teaching Health Board is calling on all Powys residents, patients and service users to share their views on the future of health services.<br><br>The 'Better Together' programme is working across the county to find ways to keep delivering quality services that best meet the needs of the people of Powys.<br><br>Hayley Thomas, Chief Executive of Powys Teaching Health Board (PTHB), said: "Our ambition is that Powys residents receive safe, quality and reliable health care services. We want to make the very best use of the resources we have whilst ensuring above all that patient care and safety is at the forefront of everything we do."<br><br>In recent years the county and its population has experienced lots of changes. Communities are getting older, and as they age, more people are living with two or more health conditions. The health board is also still dealing with the legacy of the COVID-19 Pandemic, including rising demand for treatments, growing waiting lists, as well as large increases in the cost of fuel, food and other bills.<br><br>Better Together is the health board's promise to work with local people and stakeholder organisations including [INSERT PARTNER NAME] to develop |

| | |
|---|---|
| a sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys [INSERT PARTNER NAME], i ddatblygu cynllun sy'n diwallu anghenion iechyd a gofal Powys dros y 10 i 25 mlynedd nesaf.<br><br>Bydd y cynllun hwn yn sicrhau y gall y bwrdd iechyd ymateb i newidiadau mewn salwch a thriniaethau a buddsoddi mwy mewn atal salwch, gwella ei gyfleusterau ac adeiladu gweithlu cynaliadwy i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.<br>• Mae gwrando ar farn yn hanfodol, gyda'r ymgysylltiad cychwynnol yn dechrau ar 28 Ebrill ac yn dod i ben ar 25 Mai. I gymryd rhan, ewch i wefan Gwella Gyda'n Gilydd y bwrdd iechyd [https://www.haveyoursaypowys.wales/better-together-spring25] i wylio neu wrando ar y fideo cryno Achos dros Newid, neu i ddarllen y crynodeb neu'r dogfennau Achos dros Newid llawn. Os oes angen copi papur arnoch, os ydych am gael fersiwn hawdd ei ddarllen, neu i gofrestru i dderbyn diweddariadau rheolaidd ewch i: https://pthb.nhs.wales/news-sign-up<br>NEU<br>• Ffoniwch: 01874 442917<br>• E-bostiwch: powys.engagement@wales.nhs.u<br>• Ysgrifennwch atom: Gwella Gyda'n Gilydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Tŷ Glasbury, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LY | a plan that meets the health and care needs of Powys over the next 10 to 25 years.<br><br>This plan will ensure the health board can respond to changes in illnesses and treatments, invest more into preventing ill health, improve its facilities and build a sustainable workforce to meet future need.<br>• Listening to views is essential, with the initial engagement starting on 28 April and concluding on 25 May. To take part, please visit the health board's Better Together website [ https://www.haveyoursaypowys.wales/better-together-spring25] to watch or listen to the summary case for change video or to read the summary or full case for change documents. If you need a paper copy, want an Easy Read version, or to sign-up to receive regular updates visit: https://pthb.nhs.wales/news-sign-up<br>OR<br>• Ring 01874 442917<br>• Email powys.engagement@wales.nhs.uk<br>• Write to Better Together, Powys Teaching Health Board, Glasbury House, Bronllys Hospital, Bronllys, Powys LD3 0LY |